

Huw Irranca-Davies AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

13 Hydref 2021

Annwyl Huw

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diogelwch Adeiladu

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 6 Hydref, fe wnaethom ni drafod tri Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gan gynnwys yr uchod ar y Bil Diogelwch Adeiladu. Ysgrifennaf atoch fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i rannu pryderon rhai o aelodau fy mhwyllgor ynghylch y defnydd cynyddol o Filiau'r DU a'r confensiwn cydsyniad deddfwriaethol i ddeddfu mewn meysydd datganoledig, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Senedd.

Cafodd y Bil Diogelwch Adeiladu ei weld fel enghraifft wych o ble y gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun. Mae diwygio'r maes diogelwch adeiladu yn faes polisi y mae Llywodraeth Cymru yn ei flaenoriaethu. Felly roedd rhai Aelodau yn gresynnu nad yw'r diwygiadau hyn yn cael eu gwneud drwy Fil y Senedd. Roedd gwneud diwygiadau o'r fath mewn Bil y DU yn cael ei weld fel ffordd o atal y Senedd rhag gallu arfer ei swyddogaethau o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif a deddfu dros Gymru.

Er y gwerthfawrogir bod y darpariaethau yn y Bil sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig wedi'u teilwra i raddau helaeth i Gymru a'u bod yn gyson â Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru "Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru", mynegwyd pryderon gan rai Aelodau na fydd newidiadau pwysig i'r gyfraith yn ddarostyngedig i bob cyfnod o'r broses ddeddfwriaethol, gan gynnwys craffu manwl gan



yr holl Aelodau a rhanddeiliaid. Mae proses y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r dyddiadau cyfredol ar gyfer adrodd yn golygu nad oes llawer o amser ar gyfer gwaith craffu ystyrlon. Rydym yn gwerthfawrogi bod Bil y DU yn gyfle i weithredu'n gynharach, ond mae mwy o graffu yn sicrhau gwell cyfraith a byddai Bil Cymru yn sicr yn caniatáu mwy o graffu.

Rydym hefyd yn ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd yn mynegi'r pryderon hyn a byddwn yn rhannu unrhyw ymateb gyda chi er gwybodaeth.

Yn gywir



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.